

moethusrwydd.

Cawsant eu dilladu'n glyd, "esgidiau hoelion cryfion i fynd i'r ysgol, a dillad cynnes, llwyad o frwmstan a thriog bob bore i'n cadw rhag annwyd, a'n cadw cyn belled oddi wrth y tân ag oedd bosibl, roeddydd i gyd wedi caledu i'r tywydd er fod ffenestr a drws ar agor, ffenestr y gegin yn agored ddydd a nos oherwydd yr hen simdde yn mygu."

Ni chai'r plant bres poced ond ar amser ffair neu drip Ysgol Sul, a cheiniog neu ddwy fyddai hynny. "Rwyf yn cofio mynd gyda f'ewyrth i ffair flynyddol Beddgelert, ffair Wyl Grog ar Fedi 21ain, ac i dori y siwrna fe fydde ni yn mynd dros y mynydd trwy'r Foty ac ar hyd llwybr y Foel Goch ac allan i'r ffordd yn Sygun Fawr ac yn cychwyn gyda dwy geiniog yn fy mhoced, ond fe gefais swllt unwaith gan modryb Mary, chwaer f'ewyrth, roedd hynny i mi yn ddigon i brynu'r ffair i gyd."

Dyddiau eraill o uchel wyl i'r plant fyddai'r adegau pan fyddai'r cymdogion yn dod at ei gilydd yn ôl hen drefn yr ardal i roi help llaw gyda'r cynhaeaf gwair neu'r cneifio - "fe fyddai ni y plant wrth ein bodd, cael teisen gwsberis, riwbob a digon o bwddin reis - welsoch chi y fath wledd fyddai i gael yr amser hynny."

Fel plant eraill yr ardal, cafodd y plant ganiatâd i fynd o gwmpas i gyflawni'r hen ddefod o hel calennig, gan alw ym mhob tŷ lle 'roeddynt yn debyg o gael croeso.

\* \* \*

'RODD y plant yn gweithio yn galed, a chawsant eu dysgu i odro, i helpu gyda'r gwair, i gorddi, ac i nôl negeseuau o'r tair siop a oedd yn Nantmor ar y pryd neu o Benrhyndudraeth neu Lanfrothen, lle roedd siop y Co-operative. Yn bur fuan, cawsant eu dysgu gan Agnes i beidio a dod at y tŷ yn wag law. "Don't come empty handed," meddai lawer gwaith, "bring something if it's only a stick for the fire."

Roedd Ellis yn mor brysur "Fe fydda gan fy Ewyrth arferiad ddechrau bob gaeaf ar ôl breccwast mynd gyda'r cŵn a'i ffon a'r wyell ar ei ysgwydd a dim golwg ymhellach ohono hyd amser cinio. Roedd hyn yn ddirgelwch imi pan yn hogyn, ond cefais eglurhad trwy ei ddilyn a'i weld yn torri coed cyll a bedw llwyni ifanc, ac yr oedd llawer o'r llwyni hyn ar dir y Clogwyn. Erbyn yr haf roeddynt wedi sychu a chrino fel coed popty. Hen simdde fawr oedd yn y Clogwyn ar popty ar wahân, tân oddi tano ac yn cymeryd rhyw ddwy awr i dwymo cyn rhoi y bara i fewn, a dyna i chi

fara werth eu gweld, yr ola mor flasu a'r cynta."

Weithiau byddai cryn helynt os nad oedd y tân yn cynnau yn syth. "Gwelais hi (Agnes) lawer gwaith yn eistedd ar y gadair fach a'r hen fegin ar ei glin yn ceisio cael rhyw lewyrch o dân, roedd yr hen fegin wedi gweld dyddiau gwell, a'r amynedd yn pallu - "Do try and get some dry sticks boy", meddai.

Weithiau byddai'r hen simdde yn chwarae tric gwahanol - "Welsoch chi y fath helynt pan fo'r gwynt yn rhiw fan arbennig. Llawer gwaith gwelais fy ewyrth yn rhoi baich o redyn cochion yn y simdde, a fire away nes byddai y mwg yn dod allan trwy'r muriau a'r to, a'r fflamau yn dod allan trwy'r corn."

\* \* \*

FEL MATER o raid, roedd Ellis ac Agnes yn ddarvoud ac wedi hen arfer gwneud defnydd o beth bynnag a oedd wrth law. Dywed Owen Charles na welodd ei ewyrth erioed yn prynu yr un arf ond ambell bladur a chribin. Treuliai ddyddiau yn y gaeaf yn atgyweirio ei offer, gan ddefnyddio pren onnen yn hytrach na'r dderwen at wneud dannedd cribin, am ei fod yn fwy hyblyg.

Ellis hefyd oedd yn gofalu am drwsio esgidiau hoelion mawr a chlociau'r teulu, ac wrth gwrs am wneud yr holl waith atgyweirio ar adeiladau y ffarm a'r cloddiau o gwmpas y caeau - gallai droi ei law at unrhyw beth os oedd modd arbed arian trwy wneud y gwaith ei hun.

Nid oedd yn arddwr, ond cymerai drafferth i drin y tir yn ofalus cyn plannu tatws er mwyn cael cnwd da ar ddiwedd y tymor.

Mae dyddiaduron Ellis Roberts yn hawdd i'w darllen, gan fod ei lawysgrifen yn eglur ac yn wastad, ac roedd William Harrison wedi ei ddydsu i sillafu yn weddol gywir, er na feistrolodd y grefft o atalnodi, a rhaid i'r darlennydd osod y prif lythrennau, yr atalnodau a'r gwahan-nodau i mewn lle bo'r galw.

Mae'r nodiadau weithiau yn gymysgedd rhyfedd o'r Gymraeg a'r Saesneg, heb unrhyw eglurhad amlwg am y trosi o'r naill iaith i'r llall, er enghraifft (Awst 10, 1930) - "Fog to the bottom today. Very dirty day. Nobody went to Chapel from here. Godro ar ben Bryn Maen y bore ac ar ben Cae'r Castell gyda'r nos. Anhawdd gweld am ganllath." Neu Tachwedd 10, 1927 - "Carry corn and so on in morning. Carry the wood to Cae Ddafydd shed in the afternoon. Three heavy bundles. Gough

went after Ynysfor hounds. Kill a fox by Beddgelert. Wedi ei godi yn y Foty. Torri coed wrth oleu lleuad."

\* \* \*

AR HYD y blynyddoedd, ceir darlun dyddiol bron o'r tywydd ar y pryd, a'i effaith ar waith y ffarm. e.e. 30 Tachwedd, 1934. "Cymylog a thawel heddiw eto - caed tywydd da bron trwy'r mis - y buchod yn pori o fore hyd yr hwyr bob dydd. Y gwair yn feddal iawn - anaml y gwelir yr afonydd mor isel yn y gaeaf. daliodd y derw hefyd hyd ddyddiau olaf y mis. maent wedi disgyn fel plyf eira."

Mae'n sôn yn aml am dywydd "gwlybrog", neu dywydd "tyner a thyfadwy". Weithiau ceid "tywydd a golwg cilwgus iawn", gydag ambell ddiwrnod braf a chynnes hyd yn oed ym mis Rhagfyr, fel yn 1934 - "Yr aderyn du yn canu ei hochor hi bore heddiw."

Roedd Ellis yn sylwi ar ac yn adnabod arwyddion y tywydd yn ôl yr hyn a welai o'i ddrws, megis 'lein wen Criccieth', sef llinell o niwl ar draws yr arfordir a oedd yn arwydd sicr o law mawr, neu 'ysgleiniad yn y bore', hefyd yn darogan glaw.

Gwna gofnod manwl o rai pethau a enynnodd ei ddiwedd, fel ar 1 Ionawr, 1911, "Sylwais ar amseriad yr haul yn codi neu yn dyfod yn weladwy o ddrws tŷ y Clogwyn. yr oedd yn hanner awr wedi deg y bore.

Cofnoda ddyfodiad yr ŵyn cyntaf e.e. Mawrth 6, 1930, "Gwelais dri oen yn y Gelli, y rhai cyntaf yn Clogwyn", a chan fod blwyddyn gwaith y ffarm fynyddig yn cael ei reoli gan fywyd y defaid, mae mynych sôn am eu hel oddiar yr ucheldiroedd i'w cneifio, eu golchi a'u dipio, pan ddeuai ffermwyr cyfagos ynghyd i roi help llaw.

Cofnodai hefyd y prisiau a gafodd amdanynt, e.e. 5. Rhagfyr, 1930 "Daeth porthmon y defaid yma ben bore - eu gwerthu am 28/- y pen". Byddai fel rheol yn gwerthu ei fyllt i Moses Williams, Tŷ Mawr, y bwtsiwr, a rhai o'r anifeiliaid eraill i'r ffermwyr lleol, a diddorol yw sylwi ar y codiad neu'r gostyngiad ym mhrisiau'r farchnad dros y blynyddoedd.

Roedd Agnes hefyd yn gwneud ychydig o elw wrth werthu 'menyn, ac ambell i gyw iâr ac wyau i wragedd yr ardal, a byddai hefyd yn mynd â'r 'menyn a'r wyau i siopau lleol i'w cyfnewid am nwyddau. Weithiau byddai llwynog yn talu ymweliad yn ystod y nos i ladd y cywion ieir, ac yr oedd gweld bytheiaid Ynysfor yn tuthio o gwmpas yn beth i'w groesawu.

\* \* \*

FEL RHEOL, cyflawnwyd gwaith y ffarm gan Ellis Roberts ei hunan neu gyda chymorth 'yr hogyn', neu gymdogion, ond ar gyfer y cynhaeaf gwair, cyflogwyd John Jones, pladurwr crwydrol, "gŵr bonheddig yn ei ffordd - gweithiwr campus a fu'n ymweld â'r Clogwyn am flynyddoedd, er ei fod yn anffodus wedi gollwng ei hun i'r ddiod feddwol, eto roedd fy ewyrth yn maddau iddo ac yn rhoi gwaith iddo. Ei dâl yn 1925 oedd 24/- am dridiau o waith, a byddai'n cysgu ar ddiwedd y dydd yn nhŷ gwair y Gelli.

Yn y gwanwyn, rhaid oedd symud y gwartheg o'r Gelli ar y gwastadedd, lle buont trwy'r gaeaf, i dreulio yr haf ar ucheldir y Foty, ac yno y byddai Ellis Roberts yn treulio diwrnod cyfan gan dorri gwair yn ystod y dydd, a dod adre wedi godro.

Cedwid gafr yng nghyffiniau y tŷ, a gofalai Agnes am fwyd i'r mochyn a oedd yn aelod anhepgor o dylwyth unrhyw ffarm. Ychydig cyn y Nadolig, 'roedd "diwrnod lladd mochyn" yn ddiwrnod prysur a chyffrous yn y Clogwyn fel ym mhob man arall.

Deuai un o deulu Gelli Iago yno i gyflawni'r weithred, yna torrid y mochyn yn ddarnau i'w halltu cyn hongian y darnau ar restl bren uwchben llawr y gegin i aros nes y byddai angen tamaid o gig moch ar y teulu neu eu cyfeillion, ac fel rheol, 'roedd cyflawnder o gig am flwyddyn gyfan.

Beth bynnag oedd yn galw yn ystod yr wythnos, buan y daeth y plant i ddeall fod y Sul yn wahanol - "Y diwrnod pwysica o'r wythnos, popeth wedi ei ddarparu ar ddydd Sadwrn hyd yn oed cinio y Sul."

Nid oedd Ellis yn mynd i'r capel yn y bore, ond am y plant, "fe fyddwn ni yn gorffod mynd lawr i'r capel bore Sul os oedd y tywydd yn ffafriol a dod a'r pena'r pregeth gartre a hefyd unrhyw newydd, fel enghraifft, pwy oedd yn absennol o'r gwasaenaeth. ar ol dod adref fe fyddai rhaid dysgu y wers at yr Ysgol Sul, ac fe welid yntau yn mynd i gyfeiriad y Bylchau gyda'i Feibl... ar ol cinio, hwylio am yr ysgol. fe fyddai fy Ewyrth yn aros i lawr am oedfa'r nos ac felly yn mynd ai fwyd gydag ei aros yn Peniel Terrace gyda Evan Enoc ai wraig. fe fyddai Modryb wedi paratoi ei fwyd ar y bwrdd yn daclus mewn llian gwyn fel yr ai yw boced yn hwylus, a photel o lefrith, hances lan a'i watch, a phan ddoe y Casgliad Mis yn ei dro fe fyddai pump swllt ar y bwrdd, heb anghofio y mint imperials, rhyw dri bob un i ni, fe fyddai Maggie a finau wedi ymadael ar cyfan cyn mynd ymhell ond ddim yr ewyrth...."

\* \* \*